OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 291 (Cy. 27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, Gwynedd i Gyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2015

Gwnaed	*19 Ionawr 2015*
Yn dod i rym	*26 Ionawr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig mewn darn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, dehongli a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Ionawr 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, Gwynedd i Gyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 26 Ionawr 2015 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o brif gerbytffordd y gefnffordd sy’n ymestyn o Gyfnewidfa Madryn, Gwynedd, hyd at Gylchfan Llanfairfechan, Conwy.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn y darn o’r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na pheri na chaniatáu reidio, unrhyw feic pedalau yn y darn o’r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd yn y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

7. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 19 Ionawr 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.